Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Busy Bees, Meithrinfa Ddydd Parc Dewi Sant
# Parc Dewi Sant
# Ewlo
# Sir y Fflint
# CH5 3XN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2017**

## Cyd-destun

Darpariaeth gofal dydd, cyfrwng Saesneg, yn Sir y Fflint yw Busy Bees, Meithrinfa Ddydd Parc Dewi Sant. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 129 o blant o dan wyth oed. Mae'n agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio ar wyliau banc. Mae'r lleoliad yn darparu gofal i blant bach mewn ystafelloedd babanod, ystafelloedd plant bach ac ystafelloedd cyn ysgol, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygiad.

Adeg yr arolygiad, mae'r awdurdod lleol yn ariannu 23 o blant ar gyfer addysg. Maent yn mynychu un o ddwy sesiwn, naill ai yn y bore neu'r prynhawn. Daw ychydig iawn o blant o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel mamiaith. Mae ychydig iawn o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant yn y lleoliad y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pum aelod o staff rhan-amser i ddarparu addysg ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu. Mae rheolwr nad yw'n addysgu yn goruchwylio'r lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2015. Arolygwyd y lleoliad gan Estyn ddiwethaf ym Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â'u cyfnod datblygiad, maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn caffael medrau a gwybodaeth newydd yn dda
- Mae bron pob un o'r plant yn hapus i siarad am bethau maent yn eu hoffi ac nad ydynt yn eu hoffi, a defnyddiant eirfa eang addas wrth drafod eu dysgu
- Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol effeithiol ac yn cymhwyso'r rhain yn eu gweithgareddau dysgu
- Mae llawer o blant yn dechrau datblygu geirfa Gymraeg ddefnyddiol
- Mae bron pob un o'r plant yn dod i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym, yn mynd yn rhwydd at yr ymarferwyr ac yn sgwrsio â nhw'n hyderus
- Mae llawer o blant yn cymryd rhan yn effeithiol mewn gweithgareddau dysgu, gan chwarae ar y cyd â'u cyfoedion
- Mae bron pob un o'r plant yn dangos ymddygiad da o amgylch y lleoliad
- Mae'r lleoliad yn cynnig ystod werthfawr o brofiadau dysgu difyr sy'n ennyn diddordeb ac yn diddori bron pob plentyn yn dda
- Mae gan bob ymarferydd berthnasoedd gweithio cadarn gyda'r plant ac maent yn ymgysylltu â nhw'n fedrus, gan ofyn cwestiynau a darparu cymorth pan fo'n briodol
- Mae'r lleoliad yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae ymarferwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd a lles plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth glir a buddiol ar gyfer y lleoliad gan y rheolwr
- Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Mae'r arweinydd ystafell yn deall ei rolau a'i chyfrifoldebau yn glir ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda rheolwyr y lleoliad
- Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad ymarferwyr yn addas
- Mae gan y lleoliad systemau priodol i'w helpu i nodi ei gryfderau a meysydd i'w gwella
- Mae gan ymarferwyr bartneriaeth gref a buddiol gyda rhieni ac maent yn eu cynnwys yn dda yn addysg eu plentyn
- Mae arweinwyr yn datblygu cynlluniau perthnasol i wella darpariaeth y lleoliad
- Ceir ystod eang o adnoddau yn y lleoliad i gefnogi dysgu buddiol gan ddilyn arfer dda y Cyfnod Sylfaen

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau TGCh plant ymhellach

A2 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant

A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio bob plentyn ar lefel addas, yn enwedig y rhai mwy abl

A4 Datblygu gweithdrefnau mwy cadarn a systematig ar gyfer arfarnu gwaith y lleoliad a chynllunio gwelliant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn y lleoliad yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â'u cyfnod datblygiad. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn caffael medrau a gwybodaeth newydd yn dda. Mae llawer o blant yn dangos ymwybyddiaeth a rheolaeth gorfforol gynyddol, er enghraifft wrth dorri gyda siswrn neu wrth wthio berfâu yn yr ardd.

Mae bron pob plentyn yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn hapus i siarad am bethau maent yn eu hoffi a phethau nad ydynt yn eu hoffi. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa eang addas wrth drafod eu gweithgareddau dysgu, fel pan fyddant yn esbonio sut i oeri uwd poeth i Elen Benfelen a'r tri arth. Mae ychydig ohonynt yn llai hyderus ac mae angen cryn anogaeth arnynt i ddisgrifio'u syniadau i rai eraill. Mae llawer o blant yn ymuno'n hyderus mewn caneuon cyfarwydd wrth ganu gyda'r grŵp.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau gwrando ar storïau'n cael eu darllen gan oedolion o lyfrau ac o'r sgrin gyfrifiadur. Maent yn nodi cymeriadau y maent yn eu hadnabod, a gallant siarad yn syml am eu personoliaeth, er enghraifft nodi'r 'bysen ddrwg' mewn llyfr archarwyr. Mae mwyafrif o blant yn edrych ar lyfrau'n annibynnol, a gwnânt sylwadau da ar beth maent yn ei weld mewn lluniau. Mae ychydig o blant yn dechrau adnabod llythrennau unigol ac yn eu cysylltu â synau penodol, fel ychydig o'r llythrennau yn eu henwau. Mae mwyafrif o blant yn datblygu hyder gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Dangosant reolaeth addas o offer gwneud marciau gwahanol, fel ffyn sialc, ac maent yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o daclau ysgrifennu i wneud siapiau ar bapur.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol effeithiol. Gallant gyfrif i 5 ac yn uwch yn gywir, ac maent yn adnabod ystod briodol o rifau. Gallant gymhwyso'r medrau hyn yn eu gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth gyfrif cymeriadau tegan ar y bws yn eu chwarae byd bach. Mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o iaith fathemategol ac yn ei defnyddio'n dda i wneud sylwadau a chymariaethau. Er enghraifft, maent yn sôn am fowlenni llai a mwy yn ystod eu hymarferiad coginio.

Mae mwyafrif o blant yn datblygu hyder priodol wrth ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, maent yn defnyddio setiau llaw i reoli ceir yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o blant yn defnyddio ystod ddigon eang o offer TGCh gyda dealltwriaeth addas.

Mae medrau Cymraeg llawer o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymuno'n llawen â chaneuon cyfarwydd ac yn cyfrif yn Gymraeg yn ystod eu chwarae. Mae llawer ohonynt yn dechrau datblygu geirfa ddefnyddiol sy'n cynnwys lliwiau a geiriau tywydd syml. Er mai ychydig o blant sy'n defnyddio'r geiriau hyn yn ddigymell, mae llawer yn eu defnyddio'n hyderus wrth gyfathrebu gydag ymarferwyr.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn dod i mewn i'r lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent yn mynd yn rhwydd at yr ymarferwyr ac yn sgwrsio â nhw'n hyderus. Mae llawer o blant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau dysgu, gan chwarae ar y cyd â'u cyfoedion. Mae ymwybyddiaeth addas gan ran fwyaf y plant o bwysigrwydd hylendid a golchi eu dwylo ar adegau priodol. Mae mwyafrif yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch. Er enghraifft, fel 'ditectifs iechyd a diogelwch', gallant nodi materion, fel dŵr wedi'i ollwng ar y llawr.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos ymddygiad da o amgylch y lleoliad. Maent yn chwarae yn hapus mewn grwpiau bach, gan rannu offer yn dda, er enghraifft wrth rannu torwyr toes i wneud siapiau. Mae bron pob plentyn yn siarad yn foesgar a'u cyfoedion ac â phob un o'r ymarferwyr. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau, fel pan ofynnir iddynt helpu i dacluso ar ôl gweithgareddau.

Mae rhan fwyaf y plant yn hapus ac yn hyderus i ymuno â'r gweithgareddau dysgu a gynigir. Gallant ddewis gweithgareddau drostynt eu hunain a chanolbwyntio'n addas. Er bod y rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu'n frwdfrydig â dysgu drwy chwarae, ychydig ohonynt sy'n cynnig awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau dysgu newydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn cynnig ystod werthfawr o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb ac yn diddori bron pob plentyn yn dda. Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang sy'n canolbwyntio'n fuddiol ar ddysgu drwy ymgysylltu a chwarae gweithredol. Er enghraifft, mae plant yn datblygu adnabyddiaeth o rifau a dealltwriaeth o gyfrif tuag at sero wrth chwarae yn y cornel cartref. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn sicrhau bob amser bod plant yn cael ystod ddigon eang o gyfleoedd i ddatblygu medrau mewn meysydd fel datblygiad creadigol neu gorfforol. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i ddysgu blaenorol plant. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o weithgareddau'n adeiladu'n ddigon systematig ar fedrau plant, yn enwedig i'r rhai mwy abl.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh trwy gydol y sesiwn. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu plant yn dda drwy ganu ac amserau stori. Mae ystod dda o lyfrau, arwyddion a labeli yn sicrhau bod plant yn chwarae mewn amgylchedd sy'n eu hannog i ddatblygu medrau darllen cynnar yn dda. Ceir cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu'u medrau rhifedd mewn llawer o weithgareddau dysgu, er enghraifft wrth gyfrif delweddau o fananas ar ddefnydd. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn cyflwyno'r syniadau hyn i blant pan fyddant yn codi, nid ydynt yn ystyried datblygiad medrau plant yn ddigon da wrth gynllunio'r dysgu, yn enwedig mewn gweithgareddau nad ydynt yn cael eu harwain gan oedolion. O ganlyniad, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Darperir cyfleoedd buddiol gan ymarferwyr i blant ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae arddangosiadau, posteri a labeli defnyddiol ar draws y lleoliad yn dathlu'r Gymraeg. Mae lluniau o blant mewn gwisg Gymreig, cyflenwad da o lyfrau Cymraeg a dathliadau, fel Dydd Gŵyl Ddewi, yn helpu plant i ddatblygu'u hunaniaeth ddiwylliannol yn dda. Defnyddir y Gymraeg yn eithaf aml gan ymarferwyr trwy gydol y sesiynau ac mae hyn yn helpu datblygu hyder a gallu plant i ddefnyddio'r iaith yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r Cyfnod Sylfaen ac o ddatblygiad plant. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn deall anghenion y plant yn y lleoliad yn dda. Mae gan bob ymarferydd berthnasoedd gweithio cadarn gyda'r plant. Maent yn ymgysylltu â nhw'n fedrus, gan ofyn cwestiynau a darparu cymorth pan fo'n briodol. Maent yn gwrando ar blant ac yn ymateb i'w sylwadau yn fuddiol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da mewn llawer o weithgareddau dysgu.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau defnyddiol a rheolaidd o blant yn ystod gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i wneud arfarniad cywir o gynnydd a chyflawniadau plant. Maent yn rhannu'r ddealltwriaeth hon fel tîm, ac o ganlyniad, yn sicrhau eu bod yn adnabod eu plant yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth asesu hon yn ddigon da bob amser wrth gynllunio dysgu'r dyfodol neu wrth gynllunio gwelliant.

Drwy grynodebau o ddatblygiad wedi'u hysgrifennu'n ofalus ac ymgynghoriadau â rhieni bob tymor, mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gyflawniadau a datblygiad parhaus eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae ymarferwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd a lles plant. Er enghraifft, trwy'r drefn ddyddiol, caiff plant eu hannog i olchi eu dwylo ar adegau addas, i fwyta byrbrydau iach ac mae ganddynt fynediad rhydd i'r ardal awyr agored lle ceir adnoddau da. O ganlyniad, mae mwyafrif o blant yn datblygu dealltwriaeth addas o bwysigrwydd ffordd iach o fyw.

Mae ymarferwyr yn ystyried yn dda sut i ddarparu ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, yn y drefn ddyddiol a chan ddefnyddio 'helpwr heddiw', mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn garedig i'w gilydd, rhannu adnoddau, tacluso a dweud 'diolch'. Mae hyn yn helpu'r plant i ddeall pwysigrwydd ymddygiad derbyniol, ac mae'n datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda. Mae 'helpwr heddiw' yn gweithio fel ditectif iechyd a diogelwch hefyd, yn helpu oedolion i nodi materion fel dŵr wedi'i ollwng a gwirio'r ardal awyr agored am broblemau.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn deall yn dda yr angen i gysylltu â rhieni ac asiantaethau allanol pan fydd angen. Gallant baratoi cynlluniau addysg neu chwarae unigol ar gyfer plant, ac maent yn deall yr angen i ymateb yn brydlon i gyngor arbenigol pan fydd hynny'n ofynnol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar lle mae ymarferwyr yn trin bob plentyn yn gyfartal. Mae staff yn adnabod y plant yn dda, ac o ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac ymlaciedig yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn sicrhau y caiff bob plentyn fynediad cyfartal i bob gweithgaredd dysgu. Drwy weithgareddau fel dathlu gwyliau o ddiwylliannau eraill a blasu bwyd o wahanol wledydd, mae hyn yn helpu plant i ddechrau datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol i blant. Caiff ystod addas o adnoddau ei threfnu'n ofalus i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r adnoddau ar gael yn rhwydd i'r plant ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'u medrau annibynnol yn dda. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell yn amgylchedd sy'n gyfoethog o eiriau, ac arddangosir ystod o waith plant. O ganlyniad, mae'r ardal dan do yn un ysgogol ar gyfer dysgu.

Gwneir defnydd da o'r ardal ddysgu awyr agored gan ymarferwyr. Mae'n cynnwys ystod eang o adnoddau diddorol a mannau ar wahân lle gall plant chwarae a dysgu'n effeithiol, fel y gegin fwd, yr ardd tylwyth teg a'r gwesty trychfilod bach. Fodd bynnag, mae'r ardal yn rhy fach i blant wneud gweithgareddau mwy egnïol, fel reidio beiciau neu sgwteri. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan reolwr y lleoliad weledigaeth glir a buddiol ar gyfer y lleoliad. Mae'n arwain tîm o ymarferwyr ymroddedig, gan ddarparu cyfeiriad strategol effeithiol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn rhoi ffocws clir ar ddatblygu darpariaeth o ansawdd uchel lle mae plant yn hapus ac yn cael gofal da. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n darparu arweiniad ar gyfer rheoli'r lleoliad yn effeithlon. O ganlyniad, mae pob un o'r ymarferwyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau dyddiol yn gydwybodol.

Mae'r dirprwy reolwr a'r arweinydd ystafell yn gweithio'n dda i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu. Mae'r arweinydd ystafell yn deall ei rolau a'i chyfrifoldebau yn glir, ac mae'n gweithio'n agos gyda rheolwyr y lleoliad. Er enghraifft, mae datblygu systemau effeithiol ar gyfer cofnodi cynnydd plant yn galluogi asesu eu cyflawniad yn gywir. Mae system gweithiwr allweddol y lleoliad yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am blant yn fuddiol. O ganlyniad, mae pob un o'r oedolion yn adnabod y plant yn arbennig o dda.

Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol rhyngddynt eu hunain a gydag ymarferwyr. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau defnyddiol, fel sicrhau bod staff yn deall gweithdrefnau diogelu a monitro cynlluniau gweithredu'r lleoliad. Maent yn galluogi arweinwyr i fonitro prosesau cytûn a rhoi gwybodaeth bwysig i ymarferwyr yn effeithlon.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad ymarferwyr yn addas. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd â staff ac yn nodi anghenion hyfforddi, cryfderau unigolion a meysydd i'w datblygu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnal arsylwadau â ffocws o ansawdd gwaith ymarferwyr. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn nodi'u blaenoriaethau mwyaf uniongyrchol i'w gwella yn ddigon cadarn.

Mae'r lleoliad yn deall ac yn ymateb yn effeithlon i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'n gweithredu'r asesiad gwaelodlin cenedlaethol yn effeithiol a gall olrhain cynnydd plant yn dda o ganlyniad i hynny.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae systemau addas gan y lleoliad i'w helpu i nodi ei gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r arweinydd ystafell yn arfarnu cynlluniau cwricwlwm ac yn defnyddio hyn i nodi cryfderau yn narpariaeth y lleoliad ac i helpu penderfynu ar weithgareddau'r dyfodol yn addas. Mae'r dirprwy reolwr yn ymgymryd ag arsylwadau bob tymor o ddarpariaeth yr ystafell ac mae hyn yn arfarnu ansawdd rhyngweithiadau ymarferwyr â phlant yn addas. Drwy'r prosesau hyn, mae arweinwyr yn dechrau arfarnu ychydig o elfennau pwysig o waith y lleoliad yn addas.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i farnau rhieni, er enghraifft drwy holiaduron defnyddiol. Maent yn gweithredu'n dda ar y rhain. Er enghraifft, arweiniodd ceisiadau am fwy o wybodaeth am gynnydd plant at rannu asesiadau'r lleoliad mewn ffordd fwy defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r craffu ar ac arfarnu safonau plant ac ansawdd gwaith ymarferwyr yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw arferion hunanarfarnu yn rhoi darlun clir i arweinwyr o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo ei wneud er mwyn gwella.

Mae arweinwyr yn datblygu cynlluniau perthnasol i wella darpariaeth y lleoliad. Mae'r arweinydd ystafell yn nodi anghenion yn briodol ac yn cynllunio ar gyfer eu datblygu yn systematig. Er enghraifft, mae mentrau diweddar wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau yn cysylltu'n dda â hunanarfarnu ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau tymor byr i wella darpariaeth. Nid yw arweinwyr yn ystyried gwelliant yn ddigon da o ran medrau plant nac yn mesur effaith camau gweithredu mewn perthynas â safonau plant.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd cadarn wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod addas o bartneriaid er mwyn helpu datblygu ei ddarpariaeth a safon lles plant.

Mae gan ymarferwyr bartneriaeth gadarn a buddiol gyda rhieni, ac maent yn eu cynnwys yn dda yn addysg eu plentyn. Drwy gylchlythyrau sy'n llawn gwybodaeth, mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am ddigwyddiadau yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn caniatáu i rieni fynd â nodiadau arsylwi a ffeil tystiolaeth eu plant adref fel y mynnant, ac mae hyn yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr iddynt o gynnydd eu plentyn. O ganlyniad, gall rhieni fonitro datblygiad eu plentyn yn effeithiol. Mae pwyllgor cyswllt rhieni sydd newydd ei ffurfio wedi dechrau ystyried pa mor dda y gallant ddatblygu'r bartneriaeth bwysig hon ymhellach yn y dyfodol.

Mae gan y sefydliad bartneriaethau sefydledig ag aelodau o'r gymuned leol, gan gynnwys busnesau lleol, er enghraifft gyda'r siop leol a chartref lleol i'r henoed. Defnyddir y cysylltiadau hyn yn effeithiol gan y lleoliad i wella profiadau dysgu plant.

Mae'r lleoliad yn cynnal partneriaethau buddiol gyda chyrff proffesiynol, fel yr awdurdod lleol. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu cyngor buddiol sy'n galluogi'r lleoliad i redeg yn hwylus a datblygu ei ddarpariaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gweithredu'n effeithlon ar gyngor gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol, megis ar wella'r ardal TGCh ac adnoddau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn y lleoliad yn rheoli ac yn defnyddio adnoddau yn effeithlon. Ceir nifer dda o staff â chymwysterau da i gefnogi datblygiad y plant a'u lles yn effeithiol. Mae arweinwyr yn lleoli ymarferwyr yn ofalus i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u medrau a'u profiad. Caiff y lleoliad ei drefnu'n effeithiol, ac mae ganddo drefn a reolir yn dda i sicrhau bod plant yn defnyddio'r mannau awyr agored a'r mannau dan do yn fuddiol. Mae ystod eang o adnoddau gan y lleoliad i gefnogi dysgu gwerthfawr gan ddilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae arweinwyr yn talu sylw manwl i hyfforddiant ymarferwyr ac yn sicrhau bod aelodau'r tîm yn cael cyfleoedd defnyddiol i ymgyfarwyddo â dulliau newydd o ddysgu plant. O ganlyniad, mae ansawdd rhyngweithiadau ymarferwyr â phlant yn dda.

Mae rheolwr y lleoliad yn goruchwylio'r gyllideb yn ofalus. Mae'n canolbwyntio cyllid yn dda ar wella darpariaeth ac ar ddiwallu anghenion plant. O ystyried y cynnydd effeithiol a wneir gan y rhan fwyaf o blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Mae'r tîm arolygu wedi ystyried yr holl adborth gan rieni wrth lunio barnau.  Fodd bynnag, cafodd y sampl o holiaduron rhieni ei annilysu oherwydd bod nifer fawr o gofnodion wedi'u cyflwyno gan rieni plant nad ydynt yn gymwys i gael cyllid y Cyfnod Sylfaen, ac felly nid yw wedi'i chrynhoi yma.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Andrew Thorne | Yr Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |